



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 314 (Cy.32)

2004 No. 314 (W.32)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004

The Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer parhau i weithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/5/EC ynglŷn â bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd ar gyfer babanod a phlant ifanc, fel y diwygiwyd y Gyfarwyddeb honno gan Gyfarwyddebau'r Comisiwn 1998/36/EC a 1999/39/EC ac fel y'i diwygiwyd ymhellach yn awr gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/13/EC. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli mewn perthynas â Chymru Reoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc 1997, fel y'u diwygiwyd.

1. These Regulations provide for the continued implementation in Wales of Commission Directive 96/5/EC on processed cereal-based foods and baby foods for infants and young children, as amended by Commission Directives 1998/36/EC and 1999/39/EC and now as further amended by Commission Directive 2003/13/EC. These Regulations revoke and replace in relation to Wales the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children Regulations 1997, as amended.

2. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Mawrth 2005. Maent -

2. These Regulations come into force on 6th March 2005. They -

- (a) yn gwahardd gwerthu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â gweithgynhyrchu a chyfansoddiad yn rheoliadau 5 i 7 a'r gofynion ynghylch labelu yn rheoliad 8 (rheoliad 4);
- (b) yn esemptio unrhyw fwyd babanod sy'n llaeth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer plant ifanc rhag gofynion y Rheoliadau hyn (rheoliad 3);
- (c) yn pennu'r awdurdodau gofodi (rheoliad 9);
- (ch) yn creu tramgwydd ac yn rhagnodi cosb (rheoliad 10);
- (d) yn darparu amddiffyniad ynglŷn ag allforion

- (a) prohibit the sale of processed cereal-based foods and baby foods for infants and young children unless they comply with the manufacturing and compositional requirements in regulations 5 to 7 and the labelling requirements in regulation 8 (regulation 4);
- (b) exempt from their application any baby food which is a milk intended for young children (regulation 3);
- (c) specify the enforcement authorities (regulation 9);
- (d) create an offence and prescribe a penalty (regulation 10);
- (e) provide a defence in relation to exports in

yn unol ag Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/397/EEC (OJ Rhif L186, 30.6.89, t.23) ar reolaeth swyddogol ar fwydydd (rheoliad 11);

(dd) yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 12); a

(e) yn cynnwys darpariaeth ddirymu (rheoliad 13) ac yn gwneud diwygiad canlyniadol (rheoliad 14).

3. Er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb 2003/13/EC mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd gwerthu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc os yw'r bwydydd hynny yn cynnwys gweddillion plaeiddiaid uwchlaw lefelau penodol. Mae lefelau gwahanol wedi'u pennu, yn dibynnu ar y plaeiddiad o dan sylw (rheoliad 7 ac Atodlenni 6 a 7). Er mwyn gweithredu brawddeg olaf Erthygl 6(2) o Gyfarwyddeb 96/5/EEC fel y'i hamnewidiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 1999/39/EC, mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynglŷn â dulliau dadansoddiadol (rheoliad 7(5)).

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud rhai mân newidiadau, newidiadau drafftio a newidiadau technegol hefyd, yn enwedig i'r ddarpariaeth sy'n cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf 1990 (rheoliad 12). Mae gan awdurdodau iechyd porthladdoedd rôl bellach ym maes gorfodi (rheoliad 9). Dim ond â mynd yn groes i'r cyfyngiadau ar werthu yn rheoliad 4 y mae'r ddarpariaeth ynglŷn â thramgyddo yn ymwneud bellach (rheoliad 10).

5. Mae arfarniad rheoliadol llawn o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes wedi'i baratoi a'r roi yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi sy'n dangos sut mae prif elfennau Cyfarwyddeb 2003/13/EC yn cael eu trosi yn y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

accordance with Articles 2 and 3 of Council Directive 89/397/EEC (OJ No. L186, 30.6.89, p.23) on the official control of foodstuffs (regulation 11);

(f) apply certain provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 12); and

(g) contain a revocation provision (regulation 13) and make a consequential amendment (regulation 14).

3. In implementation of Directive 2003/13/EC these Regulations prohibit the sale of processed cereal-based foods and baby foods for infants and young children if those foods contain pesticide residues above certain levels. Different levels are set depending on the pesticide in question (regulation 7 and Schedules 6 and 7). In implementation of the final sentence of Article 6(2) of Directive 96/5/EC as substituted by Directive 1999/39/EC, provision is made as to analytical methods (regulation 7(5)).

4. These Regulations also make some minor, drafting and technical changes, particularly to the provision applying certain provisions of the 1990 Act (regulation 12). Port health authorities now have a role in enforcement (regulation 9). The offence provision now relates only to a contravention of the restrictions on sale in regulation 4 (regulation 10).

5. A full regulatory appraisal of the effect that this instrument will have on the costs of business has been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales together with a Transposition Note setting out how the main elements of Directive 2003/13/EC are transposed in these Regulations. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

2004 Rhif 314 (Cy.32)**2004 No. 314 (W.32)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004****The Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004***Wedi'u gwneud**10 Chwefror 2004**Made**10th February 2004**Yn dod i rym**6 Mawrth 2005**Coming into force**6th March 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(4), 16(1)(a), (e) ac (f), (17)(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(a) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(b), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(c) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 6(4), 16(1)(a), (e) and (f), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(a) and now vested in it(b), having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation both as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(c) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety and in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act, makes the following Regulations:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004; maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 6 Mawrth 2005.

Title, application and commencement

1. These Regulations may be cited as the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004; they apply in relation to Wales only and come into force on 6th March 2005.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3) o'r Ddeddf i'r graddau y gall is-adran 3 fod yn gymwys i Gymru;

ystyr "babanod" ("*infants*") yw plant o dan ddeuddeng mis oed;

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"baby foods" ("*bwyd babanod*") means foods for particular nutritional use fulfilling the particular requirements of infants and young children in good

(a) 1990 p.16.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(c) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(a) 1990 c.16.

(b) Functions formerly exercisable by "the Secretary of State" so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28).

(c) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

ystyr "bwyd babanod" ("*baby foods*") yw bwydydd sydd i'w defnyddio at ddiben maethol penodol, sy'n bodloni gofynion penodol babanod a phlant ifanc mewn iechyd da ac sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio gan fabanod tra'u bod yn cael eu diddyfnu, a chan blant ifanc fel ychwanegyn at eu deiet neu ar gyfer eu hymaddasiad graddol i fwyd cyffredin, ond nad ydynt yn cynnwys bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn;

ystyr "bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn" ("*processed cereal-based foods*") yw bwydydd sydd i'w defnyddio at ddiben maethol penodol o fewn y categorïau a bennir yn Rhan I o Atodlen 1, sy'n bodloni gofynion penodol babanod a phlant ifanc mewn iechyd da ac sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio gan fabanod tra'u bod yn cael eu diddyfnu, a chan blant ifanc fel ychwanegyn at eu deiet neu ar gyfer eu hymaddasiad graddol i fwyd cyffredin;

ystyr "Cytundeb AEE" ("*EEA Agreement*") yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(a) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y'i haddaswyd gan y Protocol(b) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "gweddill plaleiddiad" ("*pesticide residue*") yw'r gweddill mewn bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn neu mewn bwydydd babanod a hwnnw'n weddill cynnyrch amddiffyn planhigion fel y diffinnir "plant protection product" ym mhwynt 1 o Erthygl 2 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/414/EEC(c) ynglŷn â gosod cynhyrchion amddiffyn planhigion ar y farchnad, gan gynnwys ei fetabolion a chynhyrchion sy'n deillio o'r cynnyrch hwnnw wrth iddo ddiraddio neu adweithio;

mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys meddu i werthu a chynnig, dangos neu hysbysebu i'w werthu;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sy'n Barti Contractio i'r Cytundeb AEE;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/5/EC(ch) ar fwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 1998/36/EC(d), Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/39/EC(dd) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2003/13/EC(e); ac

health and intended for use by infants while they are being weaned, and by young children as a supplement to their diet or for their progressive adaptation to ordinary food, but excludes processed cereal-based foods;

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Commission Directive 96/5/EC(a) on processed cereal-based foods and baby foods for infants and young children, as amended by Commission Directive 1998/36/EC(b), Commission Directive 1999/39/EC(c) and Commission Directive 2003/13/EC(d);

"EEA Agreement" ("*Cytundeb AEE*") means the Agreement on the European Economic Area(e) signed at Oporto on 2nd May 1992 as adjusted by the Protocol(f) signed at Brussels on 17th March 1993;

"EEA State" ("*Gwladwriaeth AEE*") means a State which is a Contracting Party to the EEA Agreement;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the same meaning as in section 5(1A) and (3) of the Act so far as subsection 3 can apply to Wales;

"infants" ("*babanod*") means children under the age of twelve months;

"pesticide residue" ("*gweddill plaleiddiad*") means the residue in processed cereal-based foods or baby foods of a plant protection product as defined in point 1 of Article 2 of Council Directive 91/414/EEC(g) concerning the placing of plant protection products on the market, including its metabolites and products resulting from its degradation or reaction;

"processed cereal-based foods" ("*bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn*") means foods for particular nutritional use within the categories specified in Part I of Schedule 1 fulfilling the particular requirements of infants and young children in good health and intended for use by infants while they are being weaned, and by young children as a supplement to their diet or for their progressive adaptation to ordinary food;

"sell" ("*gwerthu*") includes possess for sale and offer, expose or advertise for sale; and

"young children" ("*plant ifanc*") means children aged between one and three years.

(a) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.1.

(b) OJ No. L1, 3.1.94, t.571.

(c) OJ No. L230, 19.8.91, t.1.

(ch) OJ Rhif L49, 28.2.96, t.17.

(d) OJ Rhif L167, 12.6.98, t.23.

(dd) OJ Rhif L124, 18.5.1999, t.8.

(e) OJ Rhif L41, 14.2.2003, t.33.

(a) OJ No. L49, 28.2.96, p.17.

(b) OJ No. L167, 12.6.98, p.23.

(c) OJ No. L124, 18.5.1999, p.8.

(d) OJ No. L41, 14.2.2003, p.33.

(e) OJ No. L1, 3.1.94, p.1.

(f) OJ No. L1, 3.1.94, p.571.

(g) OJ No. L230, 19.8.91, p.1.

ystyr "plant ifanc" ("*young children*") yw plant rhwng un a thair blwydd oed.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn a'r ymadroddion cyfatebol yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag ystyr yr ymadroddion cyfatebol yn y Gyfarwyddeb.

(3) Os yw unrhyw Atodlen yn cynnwys unrhyw nodyn, rhaid i ddarpariaethau'r Atodlen honno gael eu dehongli a'u cymhwyso yn unol â'r nodyn hwnnw.

Esemptiad

3. Ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw fwyd babanod sy'n llaeth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer plant ifanc.

Cyfyngiadau ar werthu bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd babanod

4. Ni chaiff neb werthu unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn nac unrhyw fwyd babanod oni bai bod y bwyd hwnnw -

- (a) yn cydymffurfio â gofynion rheoliadau 5 i 7 o ran gweithgynhyrchu a chyfansoddiad; a
- (b) wedi'i labelu yn unol â rheoliad 8.

Gofynion cyffredinol o ran gweithgynhyrchu a chyfansoddiad

5.-(1) Rhaid peidio â gweithgynhyrchu unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn nac unrhyw fwyd babanod o unrhyw gyfansoddyn ac eithrio'r rhai y mae eu haddasrwydd sydd i'w defnyddio at ddben maethol penodol gan fabanod a phlant ifanc wedi'i gadarnhau drwy ddata gwyddonol sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol.

(2) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu unrhyw fwyd babanod beidio â chynnwys cymaint o unrhyw sylwedd ag i beryglu iechyd babanod neu blant ifanc.

(3) Rhaid i gyfansoddiad bwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn gydymffurfio â'r meini prawf a bennir yn Rhan II o Atodlen 1 o'i darllen ynghyd ag Atodlen 2.

(4) Rhaid i gyfansoddiad bwyd babanod gydymffurfio â'r meini prawf a bennir yn Atodlen 3.

Sylweddau maethol a maetholion sydd wedi'u hychwanegu

6.-(1) Wrth weithgynhyrchu unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu unrhyw fwyd babanod, rhaid peidio ag ychwanegu unrhyw sylwedd maethol ac eithrio sylwedd maethol a bennir yn Atodlen 4.

(2) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar

(2) Other expressions used in these Regulations and in the Directive have the same meaning in these Regulations as they have in the Directive.

(3) Where any Schedule contains any note, the provisions of that Schedule shall be interpreted and applied in accordance with such note.

Exemption

3. These Regulations shall not apply to any baby food which is a milk intended for young children.

Restrictions on the sale of processed cereal-based foods and baby foods

4. No person shall sell any processed cereal-based food or baby food unless -

- (a) it complies with the requirements of regulations 5 to 7 as to manufacture and composition; and
- (b) it is labelled in accordance with regulation 8.

General requirements as to manufacture and composition

5.-(1) No processed cereal-based food or baby food shall be manufactured from any ingredient other than those whose suitability for particular nutritional use by infants and young children has been established by generally accepted scientific data.

(2) No processed cereal-based food or baby food shall contain any substance in such quantity as to endanger the health of infants or young children.

(3) The composition of a processed cereal-based food shall comply with the criteria specified in Part II of Schedule 1 as read with Schedule 2.

(4) The composition of a baby food shall comply with the criteria specified in Schedule 3.

Added nutritional substances and nutrients

6.-(1) In the manufacture of any processed cereal-based food or baby food, no nutritional substance shall be added other than a nutritional substance specified in Schedule 4.

(2) No processed cereal-based food or baby food

rawn nac unrhyw fwyd babanod beidio â chynnwys cymaint o unrhyw faetholyn wedi'i ychwanegu a bennir yng ngholofn 1 o Ran I o Atodlen 5 ag i fynd dros y terfyn uchaf a bennir gyferbyn â'r maetholyn hwnnw yng ngholofn 2 o'r Rhan honno.

(3) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn nac unrhyw fwyd babanod a bennir yng ngholofn 1 o Ran II o Atodlen 5 beidio â chynnwys unrhyw faetholyn wedi'i ychwanegu a bennir gyferbyn â'r bwyd hwnnw yng ngholofn 2 o'r Rhan honno ag i fynd dros y terfyn uchaf a bennir yng ngholofn 3 o'r rhan honno.

Gweddillion plaleiddiaid

7.-(1) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu unrhyw fwyd babanod beidio â chynnwys -

- (a) unrhyw weddill plaleiddiad o blaleiddiad a bennir yn Atodlen 6; na
- (b) unrhyw omethoad, pan yw'n fetabolyn plaleiddiad nas pennir yn Atodlen 6, nac unrhyw gynnyrch sy'n deillio o ddiraddiant neu ymadwaith y metabolyn hwnnw,

ar lefel sy'n uwch na 0.003 mg/kg.

(2) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu fwyd babanod beidio â chynnwys unrhyw weddill plaleiddiad o blaleiddiad a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 7 ar lefel uwch na'r lefel a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r plaleiddiad hwnnw.

(3) Rhaid i unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu fwyd babanod beidio â chynnwys unrhyw weddill plaleiddiad o unrhyw blaleiddiad unigol nas pennir yn Atodlen 6 neu golofn 1 Atodlen 7 ar lefel sy'n uwch na 0.01 mg/kg.

(4) Mae'r lefelau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) to (3) yn gymwys i'r bwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu'r bwyd babanod -

- (a) sydd wedi'i weithgynhyrchu fel bwyd sy'n barod i gael ei fwyta, neu
- (b) os nad yw wedi'i weithgynhyrchu felly, fel y'i hailansoddiwyd yn unol â chyfarwyddiadau'i weithgynhyrhydd.

(5) Rhaid i'r dulliau dadansoddi ar gyfer penderfynu lefelau gweddillion plaleiddiaid at ddibenion y rheoliad hwn fod yn ddulliau safonedig sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol.

shall contain any added nutrient specified in column 1 of Part I of Schedule 5 in an amount exceeding the maximum limit specified opposite that nutrient in column 2 of that Part.

(3) No processed cereal-based food or baby food specified in column 1 of Part II of Schedule 5 shall contain any added nutrient specified opposite that food in column 2 of that Part in an amount exceeding the maximum limit specified opposite that food in column 3 of that Part.

Pesticide residues

7.-(1) No processed cereal-based food or baby food shall contain -

- (a) any pesticide residue of a pesticide specified in Schedule 6; or
- (b) any omethoate, where it is a metabolite of a pesticide not specified in Schedule 6, or any product resulting from degradation or reaction of that metabolite,

at a level exceeding 0.003 mg/kg.

(2) No processed cereal-based food or baby food shall contain any pesticide residue of a pesticide specified in column 1 of Schedule 7 at a level exceeding that specified in column 2 of that Schedule in relation to that pesticide.

(3) No processed cereal-based food or baby food shall contain any pesticide residue of any individual pesticide which is not specified in Schedule 6 or column 1 of Schedule 7 at a level exceeding 0.01 mg/kg.

(4) The levels referred to in paragraphs (1) to (3) apply to the processed cereal-based food or baby food -

- (a) manufactured as ready for consumption, or
- (b) if it is not so manufactured, as reconstituted according to its manufacturer's instructions.

(5) Analytical methods for determining levels of pesticide residues for the purposes of this regulation shall be generally acceptable standardised methods.

Labelu

8.-(1) Heb leihau effaith gyffredinol Rhan II o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(a), rhaid i fwydydd proses sydd wedi'i seilio ar rawn a bwydydd babanod gael eu labelu â'r manylion canlynol -

- (a) datganiad ynghylch o ba oedran priodol (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai na phedwar mis) y caniateir defnyddio'r bwyd, o ystyried ei gyfansoddiad, ei ansawdd ffisegol neu ei nodweddion penodol eraill;
- (b) gwybodaeth am bresenoldeb neu absenoldeb glwten os yw'r oedran sydd wedi'i ddatgan yn unol ag is-baragraff (a) yn llai na chwe mis;
- (c) gwerth yr ynni sydd ar gael a hwnnw wedi'i fynegi mewn kJ a kcal, a'r cynnwys o ran protein, carbohydradau a braster, wedi'i fynegi ar ffurf rifiadol, fesul 100 g neu 100 ml o'r bwyd fel y mae'n cael ei werthu ac, os yw'n briodol, fesul maint penodedig o'r bwyd fel y mae wedi'i fwriadu i gael ei fwyta neu ei yfed;
- (ch) y maint cyfartalog, wedi'i fynegi ar ffurf rifiadol, fesul 100 g neu 100 ml o'r bwyd fel y mae'n cael ei werthu ac, os yw'n briodol, fesul maint penodedig o'r bwyd fel y mae wedi'i fwriadu i gael ei fwyta neu ei yfed, o bob sylwedd mwynol ac o bob fitamin y mae gofyniad o ran uchafswm neu isafswm ei gyfansoddiad wedi'i bennu yn -
 - (i) Rhan II o Atodlen 1 yn achos bwydydd proses wedi'u seilio ar rawn; a
 - (ii) Atodlen 3 yn achos bwydydd babanod; a
- (d) os yw'n angenrheidiol paratoi'r bwyd, cyfarwyddiadau priodol ar gyfer ei baratoi a datganiad ynglŷn â phwysigrwydd dilyn y cyfarwyddiadau hynny.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (1)(ch), rhaid peidio â labelu unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn nac unrhyw fwyd babanod â maint cyfartalog unrhyw faetholyn a bennir yn Atodlen 4 oni bai -

- (a) bod y maint cyfartalog yn cael ei fynegi ar ffurf rifiadol, fesul 100 g neu 100 ml o'r bwyd fel y mae'n cael ei werthu ac, os yw'n briodol, fesul maint penodedig o'r bwyd fel y mae wedi'i fwriadu i'w fwyta neu i'w yfed; a
- (b) yn achos sylwedd mwynol neu fitamin, fod hwnnw'n sylwedd mwynol neu'n fitamin ac eithrio'r un y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1)(ch).

(3) Os, yn unol â pharagraff (1)(ch) neu baragraff (2), y mae unrhyw fwyd proses sydd wedi'i seilio ar rawn neu unrhyw fwyd babanod wedi'i labelu â'r maint cyfartalog, fesul 100 g neu 100 ml o'r bwyd fel y mae'n

(a) O.S. 1996/1499, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S.1998/141, 1398, 2424, 1999/747, 1136, 1483, 1540, 2000/1925 (Cy.134), 1232 (Cy.66), 2001/1440 (Cy.102), 2679 (Cy.220), 3909 (Cy.321), 329 (Cy.42), 2002/330 (Cy.43), 2003/1635 (Cy.177), 832 (Cy.104), 945 (Cy.126), 1713 (Cy.181).

Labelling

8.-(1) Without prejudice to the generality of Part II of the Food Labelling Regulations 1996(a), processed cereal-based foods and baby foods shall be labelled with the following particulars -

- (a) a statement as to the appropriate age (which shall be not less than four months) from which the food may be used, regard being had to its composition, texture or other particular properties;
- (b) information as to the presence or absence of gluten if the age stated pursuant to subparagraph (a) is less than six months;
- (c) the available energy value expressed in kJ and kcal, and the protein, carbohydrate and fat content, expressed in numerical form, per 100 g or 100 ml of the food as sold and, where appropriate, per specified quantity of the food as proposed for consumption;
- (d) the average quantity, expressed in numerical form, per 100 g or 100 ml of the food as sold and, where appropriate, per specified quantity of the food as proposed for consumption, of each mineral substance and of each vitamin in respect of which a maximum or a minimum compositional requirement is specified in -
 - (i) Part II of Schedule 1 in the case of processed cereal-based foods; and
 - (ii) Schedule 3 in the case of baby foods; and
- (e) if preparation of the food is necessary, appropriate instructions for preparation and a statement as to the importance of following those instructions.

(2) Subject to paragraph (1)(d), no processed cereal-based food or baby food shall be labelled with the average quantity of any nutrient specified in Schedule 4 unless -

- (a) that average quantity is expressed in numerical form, per 100 g or 100 ml of the food as sold and, where appropriate, per specified quantity of the food as proposed for consumption; and
- (b) in the case of a mineral substance or vitamin, it is a mineral substance or vitamin other than one referred to in paragraph (1)(d).

(3) Where, pursuant to paragraph (1)(d) or paragraph (2), any processed cereal-based food or baby food is labelled with the average quantity, per 100 g or 100 ml of the food as sold and, where appropriate, per

(a) S.I. 1996/1499, relevant amending instruments are S.I. 1998/141, 1398, 2424, 1999/747, 1136, 1483, 1540, 2000/1925 (W.134), 1232 (W.66), 2001/1440 (W.102), 2679 (W.220), 3909 (W.321), 329 (W.42), 2002/330 (W.43), 2003/1635 (W.177), 832 (W.104), 945 (W.126), 1713 (W.181).

cael ei werthu ac, os yw'n briodol, fesul maint penodedig o'r bwyd fel y mae wedi'i fwriadu i'w fwyta neu i'w yfed, o unrhyw fitamin neu fwyn a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 8, rhaid i label y bwyd beidio â mynegi'r maint cyfartalog hwnnw fel canran o'r gwerth cyfeiriadol a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 8 mewn perthynas â fitamin neu'r mwyn hwnnw oni bai bod y maint sy'n bresennol yn hafal i 15 y cant neu fwy o'r gwerth cyfeiriadol.

Gorfodi

9.-(1) Ac eithrio os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal.

(2) Rhaid i bob awdurdod iechyd porthladd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal o ran bwyd sydd wedi'i fewnforio.

Tramgwydd a chosb

10. Os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i reoliad 4, bydd yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Amddiffyniad ynglŷn ag allforion

11. Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi -

- (a) bod y bwyd, yr honnir bod y tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef, wedi'i fwriadu i'w allforio i wlad sydd â deddfwriaeth debyg i'r Rheoliadau hyn a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a
- (b) yn achos allforio i un o Wladwriaethau'r AEE, bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Gyfarwyddeb(a).

Cymhwyso darpariaethau amrywiol y Ddeddf

12. Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn -

- (a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);
- (b) adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl);
- (c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
- (ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy), fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15;
- (d) adran 22 (amddiffyn cyhoeddi wrth gynnal busnes);

(a) Fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor AEE Rhif 32/2002 (OJ Rhif L154, 13.6.2002, t.12) a 107/2003.

specified quantity of the food as proposed for consumption, of any vitamin or mineral which is specified in column 1 of Schedule 8, the labelling of the food shall not express that average quantity as a percentage of the reference value specified in column 2 of Schedule 8 in relation to that vitamin or mineral unless the quantity present is equal to 15 per cent or more of the reference value.

Enforcement

9.-(1) Except where paragraph (2) applies, each food authority shall enforce and execute these Regulations in its area.

(2) Each port health authority shall enforce and execute these Regulations in its district in relation to imported food.

Offence and penalty

10. If any person contravenes regulation 4 he shall be guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Defence in relation to exports

11. In any proceedings for an offence under these Regulations it shall be a defence for the accused to prove -

- (a) that the food in respect of which the offence is alleged to have been committed was intended for export to a country which has legislation analogous to these Regulations and that the food complies with that legislation; and
- (b) in the case of export to an EEA State, that the legislation complies with the provisions of the Directive(a).

Application of various provisions of the Act

12. The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to the Act or Part thereof shall be construed as a reference to these Regulations -

- (a) section 2 (extended meaning of "sale" etc.);
- (b) section 3 (presumptions that food is intended for human consumption);
- (c) section 20 (offences due to fault of another person);
- (d) section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of section 8, 14 or 15;
- (e) section 22 (defence of publication in the course of a business);

(a) As adopted by the EEA Joint Committee Decisions No. 32/2002 (OJ No. L154, 13.6.2002, p.12) and 107/2003.

- (dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);
- (e) adran 33(1) (rhwystro swyddogion etc.);
- (f) adran 33(2), gyda'r addasiad bod rhaid barnu bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan baragraff (e) uchod;
- (ff) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(1) fel y cymhwysir hi gan baragraff (e) uchod;
- (g) adran 35(2) a (3) i'r graddau y mae'n ymwneud â thrangwyddau o dan adran 33(2) fel y cymhwysir hi gan baragraff (f) uchod;
- (ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac
- (h) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

- (f) section 30(8) (which relates to documentary evidence);
- (g) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (h) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" shall be deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in that subsection as applied by paragraph (g) above;
- (i) section 35(1) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by paragraph (g) above;
- (j) section 35(2) and (3) in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by paragraph (h) above;
- (k) section 36 (offences by bodies corporate); and
- (l) section 44 (protection of officers acting in good faith).

Dirymu

13.-(1) Dirymir Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc 1997(a) a Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) 1999(b) mewn perthynas â Chymru.

(2) Dirymir Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001(c).

Diwygiad

14.-(1) Diwygir Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd 1990(ch)(i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 2(7) (gwahardd gwerthu etc fwyd sy'n cynnwys tryptoffan), yn y diffiniadau o "processed cereal-based food" a "baby food" yn lle'r geiriau "the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children Regulations 1997" rhwch y geiriau "the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004".

Revocations

13.-(1) The Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children Regulations 1997(a) and the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Amendment) Regulations 1999(b) are revoked in relation to Wales.

(2) The Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Amendment) (Wales) Regulations 2001(c) are revoked.

Amendment

14.-(1) The Tryptophan in Food Regulations 1990(d) shall be amended (in so far as they apply in relation to Wales) in accordance with paragraph (2).

(2) In regulation 2(7) (prohibition on sale etc. of food containing tryptophan), in the definitions of "processed cereal-based food" and "baby food" there shall be substituted for the words "the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children Regulations 1997" the words "the Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004".

(a) O.S. 1997/2042.

(b) O.S. 1999/275.

(c) O.S. 2001/1691 (Cy. 121).

(ch) O.S. 1990/1728; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2002/2939 (Cy.280).

(a) S.I. 1997/2042.

(b) S.I. 1999/275.

(c) S.I. 2001/1691 (W.121).

(d) S.I. 1990/1728; the relevant amending instrument is S.I. 2002/2939 (W.280).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

10 Chwefror 2004

10th February 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN 1

Rheoliadau 2(1), 5(3) ac 8(1)(ch)

BWYDYDD SYDD WEDI'U SEILIO AR RAWN

RHAN I

Categoriâu o fwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn

1. Grawn syml sydd i'w hailansoddi neu y mae rhaid eu hailansoddi â llaeth neu hylifau maethlon priodol eraill.
2. Grawn â bwyd uchel mewn protein sydd wedi'i ychwanegu ac sydd i'w hailansoddi neu y mae rhaid eu hailansoddi â dwr neu hylif arall heb brotein.
3. Pastau sydd i'w defnyddio ar ôl eu coginio mewn dwr berwedig neu hylifau priodol eraill.
4. Bisgedi caled a bisgedi eraill sydd i'w defnyddio naill ai'n uniongyrchol neu, ar ôl eu malu'n fân, gan ychwanegu dwr, llaeth neu hylifau addas eraill atynt.

RHAN II

Cyfansoddiad hanfodol bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn

Mae'r gofynion ynglŷn â maetholion yn cyfeirio at y cynnyrch sy'n barod i'w defnyddio, sy'n cael eu marchnata fel y cyfryw neu sydd i'w hailansoddi yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrhydd.

1. Y cynnwys o ran grawn

Mae bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn yn cael eu paratoi'n bennaf o un neu ragor o ydau grawn wedi'u malu a/neu gynhyrchion gwreiddiau startslyd.

Rhaid i gyfanswm yr ydau grawn a/neu'r cynnyrch gwreiddiau startslyd beidio â bod yn llai na 25 y cant o'r cymysgedd terfynol o gymharu pwysau sych y naill a phwysau sych y llall.

2. Protein

2.1. Yn achos cynhyrchion a grybwyllwyd ym mharagraffau 2 a 4 o Ran I, rhaid i'r cynnwys o ran protein beidio â bod yn fwy nag 1.3 g /100 kJ (5.5 g / 100 kcal).

